OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1599 (Cy. 198)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Arolygu Addysg Feithrin) (Cymru) 2015

*Gwnaed - - - - 5 Awst 2015*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 10 Awst 2015*

*Yn dod i rym - - 1 Medi 2015*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 122(1) a 138(7) ac (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**), a pharagraffau 6B(1)(a) a 13B o Atodlen 26 iddi, ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn, cymhwyso a dirymu

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Arolygu Addysg Feithrin) (Cymru) 2015 a deuant i rym ar 1 Medi 2015.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag addysg feithrin a ddarperir yng Nghymru.

(3) Mae'r rheoliadau a ganlyn wedi eu dirymu—

(a) Rheoliadau Addysg (Arolygu Addysg Feithrin) (Cymru) 1999(**2**);

(b) rheoliad 23 o Reoliadau Deddf Addysg 2002 (Darpariaethau Trosiannol a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2005(**3**);

(c) rheoliad 2 o Reoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2010(**4**); a

(d) rheoliad 2 o Reoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n Ymwneud ag Arolygu Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2014(**5**).

(**1**) 1998 p. 31. Diwygiwyd adran 122(1) gan baragraff 33(1) a (3) o Atodlen 2 i Ddeddf Gofal Plant 2006 (p. 21), a rhoddwyd paragraff 6B yn lle paragraff 6 o Atodlen 26, fel y'i deddfwyd yn wreiddiol, gan baragraffau 8 a 12 o Ran 2 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 2005 (p. 18). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 138 ac Atodlen 26 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**2**) O.S. 1999/1441.

(**3**) O.S. 2005/2913 (Cy. 210).

(**4**) O.S. 2010/1436 (Cy. 127).

(**5**) O.S. 2014/1212 (Cy. 128).

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "Brif Arolygydd Cymru" yr ystyr a roddir iddo yn adran 6 o Ddeddf Addysg 1996;

ystyr "y cofrestrydd ysgolion annibynnol" ("*the registrar of independent schools*") yw Gweinidogion Cymru;

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw diwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, yn ŵyl banc nac yn rhan o wyliau sy'n hwy nag wythnos a gymerir gan yr ysgol o dan sylw;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

ystyr "gŵyl banc" ("*bank holiday*") yw diwrnod sy'n ŵyl banc yng Nghymru o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(**6**);

mae i "ysgol feithrin" yr ystyr a roddir i "nursery school" yn adran 6 o Ddeddf Addysg 1996(**7**).

**Adroddiadau arolygu**

**3.**—(1) At ddibenion paragraff 13B(1) o Atodlen 26 i'r Ddeddf, y cyfnod y mae adroddiad ar arolygiad o dan baragraff 6B o'r Atodlen honno i gael ei wneud ynddo yw 45 o ddiwrnodau gwaith o'r diwrnod y dechreuodd yr arolygiad.

(2) At ddibenion paragraff 13B(2) o Atodlen 26 i'r Ddeddf, yr awdurdodau a'r personau y mae rhaid anfon copi o'r adroddiad ar arolygiad o dan baragraff 6B o'r Atodlen honno atynt yw—

(a) yn achos addysg feithrin a ddarperir mewn ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol—

(i) pennaeth yr ysgol;

(ii) corff llywodraethu'r ysgol; a

(iii) yr awdurdod lleol;

(b) yn achos addysg feithrin a ddarperir mewn ysgol ag iddi lywodraethwyr sefydledig, y person sy'n penodi'r llywodraethwyr hynny;

(c) yn achos addysg feithrin a ddarperir mewn ysgol annibynnol—

(i) pennaeth yr ysgol;

(ii) perchenogion yr ysgol;

(iii) y cofrestrydd ysgolion annibynnol; a

(iv) pan fo'r ysgol wedi ei chymeradwyo o dan adran 347 o Ddeddf Addysg 1996(**8**) (cymeradwyo ysgolion annibynnol sy'n darparu addysg arbennig), awdurdod lleol sy'n talu'r ffioedd mewn cysylltiad â phresenoldeb disgybl cofrestredig yn yr ysgol;

(d) yn achos addysg feithrin a ddarperir mewn ysgol arbennig nas cynhelir gan awdurdod lleol—

(i) pennaeth yr ysgol;

(ii) perchenogion yr ysgol; a

(iii) awdurdod lleol sy'n talu ffioedd mewn cysylltiad â phresenoldeb disgybl cofrestredig yn yr ysgol;

(e) yn achos addysg feithrin a ddarperir gan awdurdod lleol o dan adran 18 o Ddeddf Plant 1989(**9**), yr awdurdod lleol hwnnw a'r person sydd â gofal am y man lle y darperir yr addysg;

(**6**) 1971 p. 80.
(**7**) 1996 p. 56.
(**8**) 1996 p. 56.
(**9**) 1989 p. 41|.

(f) yn achos addysg feithrin a ddarperir gan berson sydd wedi ei gofrestru gan awdurdod lleol o dan adrannau 20 a 22 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(**10**), y person hwnnw a'r awdurdod lleol a'i cofrestrodd;

(g) yn achos addysg feithrin a ddarperir gan berson y byddai'n ofynnol iddo fod wedi ei gofrestru felly pe bai'r Ddeddf yn gymwys i'r Goron, y person hwnnw a Gweinidogion Cymru(**11**); ac

(h) yn achos addysg feithrin a ddarperir gan awdurdod lleol mewn cartref i blant sydd ag anghenion addysgol arbennig, yr awdurdod lleol hwnnw.

## Ysbeidiau rhwng arolygiadau

**4.**—(1) Rhaid i Brif Arolygydd Cymru sicrhau bod addysg feithrin berthnasol yn cael ei harolygu o dan baragraff 6B(1)(a) o Atodlen 26 i'r Ddeddf—

(a) pan nad oes arolygiad blaenorol wedi bod o dan y paragraff hwnnw, o fewn 6 blynedd i'r dyddiad y cafodd addysg feithrin berthnasol ei darparu am y tro cyntaf yn y fangre o dan sylw; a

(b) ym mhob achos arall, o leiaf unwaith o fewn cyfnod o 6 mlynedd sy'n dechrau ar 1 Medi 2015 ac sy'n dod i ben ar 31 Awst 2021 ac o leiaf unwaith o fewn pob cyfnod dilynol o 6 mlynedd sy'n dechrau pan ddaw'r cyfnod blaenorol i ben.

(2) At ddibenion y rheoliad hwn, y dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad diwethaf yw dyddiad yr adroddiad ar yr arolygiad diwethaf o dan baragraff 6B o Atodlen 26 i'r Ddeddf.

*Huw Lewis*
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

5 Awst 2015

(**10**) 2010 (mccc 1).
(**11**) Sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 1 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p. 38). Trosglwyddwyd holl swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac maent bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â darpariaeth addysg feithrin yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn atgynhyrchu Rheoliadau Addysg (Arolygu Addysg Feithrin) (Cymru) 1999 ("Rheoliadau 1999") i raddau helaeth. Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau hyn yn cynyddu'r cyfnod amser rhagnodedig ar gyfer cwblhau adroddiad arolygu i 45 o ddiwrnodau gwaith o'r dyddiad y dechreuodd yr arolygiad. Mae Rheoliadau 1999 wedi eu dirymu (rheoliad 1(3)).

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r cyfnod y mae rhaid i adroddiad ar arolygiad o addysg feithrin o dan Atodlen 26 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 gael ei wneud ynddo; yr awdurdodau a'r personau y mae rhaid anfon copi o'r adroddiad atynt; a'r ysbeidiau sydd rhwng arolygiadau addysg feithrin o dan yr Atodlen honno (rheoliadau 3 a 4).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.